Llinell union: 0300 062 8379
Ebost:Kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk

10 Ebrill 2015

Trwy Ebost: Tanwen.Summers@cynulliad.cymru

Annwyl Tanwen,

Ar ôl imi fod yn rhan o'r Pwyllgor ar 19 Mawrth 2015, fe wnes i gytuno i ddarparu gwybodaeth bellach am nifer y darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ac am nifer yr unedau preifat sydd o fewn sefydliadau'r GIG.

**Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol**

Atodwyd tabl sy'n nodi'r darparwyr gofal iechyd annibynnol sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel ar 31 Mawrth 2015, o'r enw Atodiad 1.

**Unedau Cleifion Preifat**

Ar hyn o bryd, dim ond un uned cleifion preifat sydd yng Nghymru. Mae Bridgend Clinic (www.bridgendclinic.co.uk) wedi'i leoli ar dir Ysbyty Tywysoges Cymru a chaiff ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Bridgend Clinic yn cynnwys naw o welyau, ac ystafell cleifion allanol sy'n cynnwys pump o ystafelloedd triniaeth. Mae'n cynnig ymgynghoriadau a gweithdrefnau ar gyfer ystod o feysydd arbenigol.

Nid yw'n ofynnol i Bridgend Clinic (Uned Cleifion Preifat) gofrestru gydag AGIC oherwydd ei fod yn cael ei redeg gan y Bwrdd Iechyd. Rydym ar ddeall ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion y GIG yn ôl y galw.

At ddibenion prosesau cwyno a rôl AGIC, caiff Clinic Bridgend ei drin fel safle GIG ac mae AGIC ar ddeall pe na bai achwynydd yn fodlon ar ymateb y Bwrdd Iechyd i'w cwyn, fe fyddai mynediad ganddynt at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Pe bai AGIC yn derbyn cwyn a fyddai'n ymwneud â Bridgend Clinic, y cam cyntaf fyddai llywio'r gŵyn at brosesau cwyno'r Bwrdd Iechyd, ac rydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Yn ystod ein hymchwil, gwnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda gadarnhau bod chwech o welyau yn cael eu neilltuo ar gyfer cleifion Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin. Ond nid yw'r rhain yn ffurfio uned a gallant hefyd gael eu defnyddio gan gleifion y GIG yn ôl yr angen. Fe wnaeth yr holl fyrddau iechyd eraill yn ogystal â'r holl Ymddiriedolaethau gadarnhau nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu fel Unedau Cleifion Preifat.



Welsh Government ● Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park ● Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil ● Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel: 0300 062 8163
Fax: 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Yn gywir

**Dr K Chamberlain**
**Prif Weithredwraig**

**Atodiad 1**

**Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (ac eithrio deintyddion preifat)**

| **Math o Leoliad** | **Nifer** |
|---|---:|
| Ysbytai iechyd meddwl/ anableddau dysgu | 21 |
| Ysbytai (ac eithrio ysbytai iechyd meddwl) | 26 |
| Clinigau | 12 |
| Asiantaethau Meddygol | 1 |
| Gwasanaethau Laser/ Golau Pwls Dwys | 72 |